COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD LLUN, 1 CHWEFROR 2021, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd CA Green – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | JPD Blundell | N Clarke | J Gebbie |
| T Giffard | M Jones | KL Rowlands | RMI Shaw |
| JC Spanswick | T Thomas | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RL Penhale-Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Tracy Watson | Swyddog Cymorth Craffu |

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

2. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG (MTFS) 2021-22 I 2024-25 A PHROSES YMGYNGHORI'R GYLLIDEB DDRAFFT

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu, a chyfeiriodd at Atodiad A, sef adroddiad terfynol Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb (BREP) ac Atodiad B, sef ymateb y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc i'r Cabinet ynghylch yr MTFS a chynigion y gyllideb ddrafft. Ym mharagraff 9 o'r adroddiad, dywedodd, gofynnwyd i'r pwyllgor benderfynu a oedd am gyflwyno'r argymhellion a amlinellwyd yn Atodiadau A a B i'r Cabinet ar 9 Chwefror 2021, fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb, yn amodol ar unrhyw addasiadau a gwelliannau a ddyfarnwyd yn briodol gan y Pwyllgor.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan unrhyw Aelodau unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar yr argymhellion yn Atodiad A neu B.

Yn dilyn trafodaethau ynghylch Adroddiad Terfynol BREP yn Atodiad A, cryfhawyd geiriad yr Argymhellion BREP canlynol gan y Pwyllgor, drwy gytuno ar ychwanegu'r geiriau isod sydd mewn print trwm a llythrennau italig:

Argymhelliad 3:
Mae'r Panel yn argymell bod pob Cyfarwyddiaeth yn nodi'r holl gostau a phwysau cyllidebol, ***gyda gwahaniaethu clir rhwng arbedion a thoriadau a chyda gwahaniaethu clir rhwng pwysau cyllidebol ac effaith pwysau Covid-19,*** ac yn arbennig yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn adennill costau'n llawn, lle bo hynny'n briodol.

Argymhelliad 5:
Mae'r Panel yn argymell adolygiad o gostau refeniw pob adeilad ysgol newydd, yn amodol ar y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, ac i sefydlu a oes arbedion cost yng nghostau refeniw cyffredinol yr ysgolion newydd. ***Gofynnodd y Panel hefyd am***

***sicrwydd bod y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydymffurfio â'r polisi gwyrdd carbon niwtral a fabwysiadwyd yn y Cyngor.***

Ar ôl ystyried holl argymhellion Cyfarfod Cyfunol pob Pwyllgor Craffu ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021-22 i 2024-25 yn Atodiad B, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion ychwanegol canlynol:

Argymhelliad 13:
Mynegodd y Pwyllgor bryder am wariant ar ymgynghorwyr oherwydd y diffyg capasiti mewnol yn sgil y toriadau mewn gwasanaethau a wnaed dros y blynyddoedd, ac argymhellodd fod cynigion arbedion cyllideb MTFS yn y dyfodol yn cynnwys unrhyw oblygiadau o'r fath. (COM1)

Argymhelliad 14:
Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod pwysau enfawr ar yr awdurdod o ganlyniad i effaith Covid-19, roedd pwysau anhygoel mewn cymunedau lleol ac argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cabinet fabwysiadu'r cysyniad o flaenoriaethu yn seiliedig ar anghenion cymunedau lleol.

PENDERFYNIAD: Penderfynodd y Pwyllgor ei fod yn dymuno cyflwyno'r argymhellion a amlinellwyd yn Atodiadau A a B i'r Cabinet ar 9 Chwefror 2021 fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb, yn amodol ar gynnwys y gwelliannau uchod a'r argymhellion ychwanegol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor.

3. EITEMAU BRYS

Dim.